January - April 2016

# Mission Gallery

*One of Wales' best adapted spaces for contemporary art & craft.*
*Exhibitions, Events, Learning & Craft.*



# Captured Moments • Rhian Hâf

*23 January - 13 March 2016*

## Exhibition

**Private View**
*6 - 8pm Friday 22 Jan 2016*

**Opened by**
**Chris Bird-Jones**

**A Ruthin Craft Centre**
**Touring Exhibition**

—

Rhian Hâf graduated from Edinburgh College of Art with a BA (Hons) in Design and Applied Arts, specialising in Glass and has an MA in Glass from Swansea College of Art, UWTSD.

*'Rhian Hâf's work entices you with the subtle beauty of light and shade. It forces you to really look and appreciate qualities of the built environment you could so easily miss. The installation is a seamless synergy of craft, architecture and design.'*

Angharad Pearce Jones, Artist and selector for Y Lle Celf 2015

Captured Moments is a study of refracted light. The lit glass pieces catch shadows as they fall. Precision polished glass is housed in an intricately designed installation. This offers viewers seemingly transient impressions, of light through glass. Rhian captures these shifting effects and gives us the chance to appreciate, question and enjoy what we're seeing.

Exploring glass's inherent ability to transmit and absorb light, Captured Moments presents a series of individual pieces capturing shadows and refracting light. The primary elements and focus of Rhian's process, involves translating and developing personal observations of silent, transient moments; the play of light and shadow within architectural spaces or a reflection projected on to a pane of glass. Incorporating photographic research, drawing and expanding further she captures these fleeting moments and uses them as a basis to develop into a body of work.

Recent gold medal winner for Craft and Design at the National Eisteddfod 2015, Rhian's work explores the inter-relationship of glass and light. Her investigation into the properties of glass is leading her to discern a broader design potential.





**Cipolwg Preifat**
*6-8yh Gwener*
*22 Ionawr 2016*

**I'w agor gan**
**Chris Bird-Jones**

**Arddangosfa Deithiol**
**Canolfan Grefft Rhuthun**

—

Graddiodd Rhian Hâf o Goleg Celf Caeredin gyda BA (Anrh)yn Dylunio a Chelfyddydau Cymhwysol, gan arbenigo mewn Gwydr ac mae ganddi MA yng Ngwydr o Goleg Celf Abertawe, UWTSD.

*'Prydferthwch cynnil cysgod a golau sy'n gwneud gwaith Rhian Hâf mor ddeniadol. Mae'n eich gorfodi i graffu a gwerthfawrogi rhinweddau yn yr amgylchedd dinesig fyddai'n cael eu colli fel arall. Mae'r cyfanwaith yn gyfuniad perffaith o grefft, pensaernïaeth a dylunio.'*

Angharad Pearce Jones, Arlunydd a detholwr Y Lle Celf 2015

Astudiaeth o olau plyg yw Cipio Eiliadau. Mae cysgodion yn cael eu taflu o ddarnau gwydr sydd wedi eu goleuo. Mae'r gwydr caboledig trachywir mewn gosodiad sydd wedi ei ddylunio yn gymhleth. Mae'r gwaith yn cynnig argraffiadau sy'n ymddangosiadol i'r gwyliwr o olau drwy wydr. Mae Rhian yn cipio'r effeithiau symudol hyn ac yn rhoi'r cyfle i ni werthfawrogi, cwestiynu a mwynhau'r hyn a welwn ni. Hudol.

Gan archwilio gallu gwydr i drawsyrru ac amsugno golau, cyflwyna Cipio Eiliadau gyfres o ddarnau unigol sydd yn dal a phlygu golau. Elfennau cynradd a ffocws proses Rhian, yn cynnwys cyfieithu a datblygu arsylwadau personol o funudau tawel, darfodedig; chwarae golau a chysgod mewn gwagleoedd pensaernïol neu adlewyrchiad wedi ei brosiectio ar ddarn o wydr. Gan ymgorffori ymchwil ffotograffig, arlunio a'u datblygu'n ymhellach mae'n dal y munudau diflanedig yma a'u defnyddio fel sylfaen i ddatblygu corff o waith.

A hithau'n enillydd diweddar medal aur am Grefft a Dylunio yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2015, mae gwaith Rhian yn archwilio rhyngberthynas gwydr a golau. Mae ei hymchwiliad i briodweddau gwydr yn ei harwain i ganfod potensial dylunio ehangach.

## Captured Moments Events & Workshops

### Lunchtime Talk 'Captured Moments'

*12pm - 1pm Fri 26 February 2016*
*Free • All Welcome*

In conversation between exhibiting artist Rhian Hâf and Chris Bird-Jones. This is a free event and all are welcome.

### Etching Glass Workshop (Adult workshop) with Rhian Hâf

*11am - 3.30pm Sat 27 February 2016*
*£15 • Ages 15+*

Working with artist Rhian Hâf participants will explore the architectural elements inside and outside of Mission Gallery as a basis to create abstract drawings. These will then be developed further into glass by translating elements of the drawings and applying the etching technique.

To book a place or for more information give us a call on 01792 652016.

Please visit our activities page for a full list of workshops: www.missiongallery.co.uk

## Digwyddiadau a Gweithdai Cipio Eiliadau

### Sgwrs Cinio 'Cipio Eiliadau'

*12yp - 1yp Gwener 26 Chwefror 2016*
*Am Ddim • Croeso i Bawb*

Sgwrs rhwng yr artist Rhian Hâf a Chris Bird-Jones. Digwyddiad rhad ac am ddim ac mae croeso i bawb.

### Gweithdy Ysgythru Gwydr (Gweithdy oedolion) gyda Rhian Hâf

*11yb - 3.30yp Sadwrn 27 Chwefror 2016*
*£15 • Oedran 15+*

Gan weithio gyda'r artist Rhian Hâf bydd unigolion yn archwilio elfennau pensaernïol o fewn a thu allan i Oriel Mission fel sylfaen i greu darluniau abstract. Bydd y rhain yn cael eu datblygu'n ymhellach i wydr trwy gyfieithu elfennau o'r darluniau a'u haddasu wrth ddefnyddio'r dechneg ysgythru.

I fwcio lle ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar 01792 65201.

Ymwelwch â'n tudalen gweithgareddau am restr lawn o weithdai: missiongallery.co.uk

# Daniel Boyle • Maker in Focus

*12 January - 21 February 2016*



*Since graduating in Studio Ceramics from Harrow College of Art, London in 1991, Daniel Boyle has for the past eighteen years lived and worked in Wales.*

*Ers graddio yn Serameg Stiwdio o Goleg Celf Harrow, Llundain yn 1991, mae Daniel Boyle dros y deunaw mlynedd diwethaf wedi byw a gweithio yng Nghymru.*

Daniel makes one-off functional salt glazed stoneware works, pieces to hold and interact with – things to be used and enjoyed. Every part of the making process contributes to the work produced; the throwing and turning marks, the impressed patterns and the fluid textured glazes.

Wood and gas-fired salt kilns are used to fire the work up to 1300°. Slips and ashes highlight where the flame has touched the pots, causing running and movement within the work, producing glazes that reflect landscapes and creating a world to be explored beyond the surface.

Mae Daniel yn creu darnau unigryw defnyddiol arlliw halen, darnau i'w dal a'u gweithio – pethau i'w defnyddio a'u mwynhau. Cyfranna pob darn o'r broses gwneud i'r darnau a gynhyrchir; y marciau taflu a throi, y patrymau argraffedig a'r arlliw ansoddedig hylifol.

Defnyddir cilniau pren a nwy i danio'r gwaith hyd at 1300o . Amlyga slipiau a lludw lle mae'r fflam wedi cyffwrdd y potiau, gan greu rhedeg a symudiad o fewn y gwaith, a chreu arlliw sydd yn adlewyrchu tirluniau a byd i'w archwilio o fewn yr arwyneb.

# Katharine Fry • The [...] Space

*12 January - 21 February 2016*



*Katharine Fry presents two video series and a conversation that reveals two very different perspectives on time and lived experience.*

*Cyflwyna Katharine Fry dwy gyfres fideo a sgwrs sydd yn datguddio dau bersbectif gwahanol ar amser a phrofiad byw.*

In the Carità series, K works with her multiples to try to escape time. She falls and she slides and she turns and she hides. She tries to push her way through memory and trauma, to find a line of flight out of the middle of time, only to be bound to time. Frustrated by her failures, K asks -.- to build her a time machine.

To satisfy K's demands -.- must first understand how time functions. She takes a single event, the demolition of Glencairn Tower, and manipulates its temporality in a number of experiments. Experiment 3 reveals a non-human temporality. There is no arrangement of moments over time, no way of discerning cause from effect. Everything is happening.

Yn y gyfres Carità, gweithia K gyda'i lluosog i geisio dianc amser. Mae'n cwympo a llithro ac mae'n troi a chuddio. Ceisia gwthio'i ffordd trwy atgofion a thrawma, i ddarganfod llinell dianc o ganol amser, dim ond i'w chaethiwo gan amser. Yn rhwystredig oherwydd ei methiant, gofynna K -.- adeiladu peiriant amser.

I fodloni K rhaid i -.- ddeall fel mae amser yn gweithio. Cymer ddigwyddiad sengl, dymchwel Tŵr Glencairn, a manipiwleiddio'i gysylltiad gydag amser mewn nifer o arbrofion. Dengys arbrawf tri chysylltiad amser heb fod dynol. Nid oes trefniant munudau dros amser, dim ffordd i ganfod achos o effaith. Mae popeth yn digwydd.

# Julie Brunskill • Maker in Focus

*23 February - 3 April 2016*



*Julie trained at Cleveland College of Art and Design. She has lived in Wales since 1983, establishing a studio in Swansea's Maritime Quarter in 1986 until moving to a purpose-built studio at her home in 2005.*

*Hyfforddodd Julie yng Ngholeg Celf a Dylunio Cleveland. Mae wedi byw yng Nghymru ers 1983, gan sefydlu ei stiwdio yn Ardal Forol Abertawe yn 1986 cyn symud i stiwdio bwrpasol yn ei chartref yn 2005.*

Julie was awarded an ACW grant in May 2015 to produce a new body of work for Mission Gallery's Maker in Focus. This has allowed her to continue her exploration of the effects of the passage of time on urban spaces, while also focusing on her concerns for the loss of the natural environment and the signs of climate change.

In response to these themes Julie has worked with a mixture of clay bodies, from smooth white paper clay to heavily-textured black, combined with layers of oxides, to represent the effects of time, weathering and man's changing interactions with the land.

Gwobrwywyd grant i Julie gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn Mai 2015 i greu corff o waith newydd i Wneuthurwr Mewn Ffocws Oriel Mission. Galluogodd hyn iddi barhau ei harchwiliad i draul amser ar wagleoedd dinesig, tra hefyd ffocysu ei hystyriaeth ar golled yr amgylchedd naturiol ac argoeled newid hinsawdd.

Yn ymateb i'r themâu hyn mae Julie wedi gweithio gyda chymysgedd o gyrff clai, o glai papur gwyn llyfn i'r du gwead trwm, a'u cyfuno gyda haenau o ocsidiau, i gynrychioli effaith amser, hindreuliad a newid rhyngweithrediad dyn gyda'r tir.

# Leah Millinship • the [...] space

*23 February - 3 April 2016*



Fine-art Masters photographer Leah Millinship presents a body of work entitled Le Bambole: Through the Eyes of Dolls. This intriguing collection explores notions of family-identity and belonging through a precious collection of bizarre and eclectic dolls, salvaged and lovingly restored by Alice Torresani-Visintainer, (the artists' paternal Nonna, Grandmother). Seemingly brought 'back-to-life' through the scanning process, these detailed and tactile images create a diverse set of mesmerising portraits, encouraging an exploration of one's own relationship to dolls and their inanimate faces.

Cyflwyna Leah Millinship, ffotograffydd Celf Gain, y corff o waith Le Bambole: Through the Eyes of Dolls. Archwilia'r casgliad diddorol yma gysyniadau o deulu - hunaniaeth a pherthyn trwy gasgliad gwerthfawr o ddoliau od ac eclectig, wedi'u hachub a'u hadfer gan Alice Torresani-Visintainer (Nonna, Mamgu yr artist). Wedi'u 'adfywio' trwy'r broses sganio, mae'r delweddau manylgar a theimledig yma yn creu set amrywiol o bortreadau gwefreiddiol, gan annog archwiliad i'n perthynas gyda doliau a'u hwynebau anfyw.

*Leah Millinship is a photographer who explores the notions of family and identity through the intimate narrative of the collected object.*

*Ffotograffydd yw Leah Millinship sydd yn archwilio cysyniadau teulu a hunaniaeth trwy naratif agos y gwrthrych casgliadol.*

# Louise Hobson

*Jane Phillips Curatorial Residency • 19 March – 10 April 2016*

---

## Exhibition



To find out more about the exhibition as it develops, and the associated events programme, please check our website and the exhibition's printed materials.

As part of the wider residency activity, Louise invited artist Catrin Llwyd to take on our Jane Phillips Award Studio in Elysium Studios for March 2016, supporting Catrin to explore the production, presentation and development of new work.

cargocollective.com/catrinllwyd
louisehobson.co.uk

—

I ddarganfod mwy am yr arddangosfa fel mae'n datblygu, a'r rhaglen digwyddiadau cymwys, edrychwch ar ein gwefan a deunyddiau printiedig yr arddangosfa.

Fel rhan o weithgarwch ehangach y cyfnod preswyl, mae Louise wedi gwahodd yr artist Catrin Llwyd i gymryd rhan yn ein Stiwdio Gwobr Jane Phillips ym Mawrth 2016, gan gefnogi Catrin i archwilio cynhyrchu, arddangos a datblygiad gwaith newydd.

cargocollective.com/catrinllwyd
louisehobson.co.uk

In March 2015 Louise Hobson was selected as the recipient of the Jane Phillips Award Curatorial Residency, a new opportunity within the Jane Phillips Award that supports early career curatorial development. The residency offered Louise a studio space at Elysium Studios for a month's research and development; a £500 travel award for overseas research; and a period of three-weeks in Mission Gallery's programming to curate an exhibition.

Within this framework Louise secured funding to travel to New York and act on an invitation from our partners Residency Unlimited, undertaking a month long curatorial residency, and further funding to develop a new exhibition with artists working in and outside of Wales, supported by mentoring from Gavin Wade, Director of Eastside Projects.

Louise sees her role as initiator, approaching the exhibition as a space constructed over time through a cumulative process of collaboration – a layering of conversations, ideas and systems - inviting artists with an open proposition of the gallery space and three weeks. This invitation began with thoughts on temporary and mobile architectures, space and exchange, but in being open to the potential of collaboration, this exhibition could come to exist as many things.

Detholwyd Louise Hobson fel derbyniwr Preswyl Curadurol Gwobr Jane Phillips ym Mawrth 2015, cyfle newydd o fewn Gwobr Jane Phillips i gefnogi datblygiad curadurol artist gyrfa gynnar. Cynigodd y cyfnod preswyl i Louise stiwdio yn Stiwdios Elysium am fis ymchwil a datblygiad; gwobr deithio o £500 am ymchwil tramor; a chyfnod o dair wythnos yn rhaglen Oriel Mission i guradu arddangosfa.

O fewn y fframwaith yma mae Louise wedi sicrhau arian i deithio i Efrog Newydd ac i weithredu ar wahoddiad ein partneriaid Residency Unlimited, gan ymrwymo i gyfnod preswyl o fis, a chronfa arall i ddatblygu arddangosfa newydd gan weithio gydag artistiaid o fewn a thu allan i Gymru, gyda chymorth a chyngor Gavin Wade, Cyfarwyddwr Eastside Projects.

Mae Louise yn gweld ei rôl fel cychwynnydd, yn edrych ar yr arddangosfa fel gwagle i'w strwythuro dros gyfnod o amser drwy broses cronnus o gydweithio - haenau o sgyrsiau, syniadau a systemau - yn gwahodd artistiaid gyda chwestiwn agored y gwagle arddangos a tair wythnos. Man dechrau'r gwahoddiad yma oedd myfyrio ar adeiladwriaeth dros dro a symudol, gwagle a chyfnewid, ond i fod yn agored i botensial cydweithio, gall yr arddangosfa fodoli fel nifer o bethau.

# Harry Gammer-Flitcroft

*Jane Phillips Award Graduate Residency • 6 February - 13 March 2016*

## Offsite Exhibition • National Waterfront Museum



**Jane Phillips Award Graduate Residency Showcase @ The National Waterfront Museum**

*The Jane Phillips Award was set up in 2011 as a memorial to Jane Phillips (1957-2011) Mission Gallery's first Director. The Award is a legacy to Jane's passion for mentoring and nurturing talent, consistently supporting young, emerging artists across the Visual and Applied Arts in Wales and beyond.*

—

**Arddangosfa Cyfnod Preswyl Graddedigwr Gwobr Jane Phillips @ Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

*Cafodd y wobr Jane Phillips ei greu yn 2011 er cof am Jane Phillips (1957 – 2011) Cyfarwyddwr cyntaf Oriel Mission. Mae'r wobr yn gymynrodd i angerdd Jane am feithrin talent, yn cefnogi'n gyson artistiaid ifanc, ymddangosedig dros gelfyddyd Gweledol a Chymhwysol yng Nghymru a phellach.*

The Jane Phillips Award has been successful and is evolving; responding to the artistic community and forming new partnerships. It has developed with the introduction of two new prizes, plus a year long programme of Residencies, including an international partnership, which will exist alongside the main award.

The recipient of the 2015 Jane Phillips Award Graduate Residency is Harry Gammer-Flitcroft, a Photography Graduate from Swansea College of Art, UWTSD, and this will be a showcase of the work produced during his residency at the Jane Phillips Award Studio at Elysium High Street Studios.

Harry's work explores the mechanics of systems that are often over looked in favour of their result. Recent topics have ranged from dissecting the photographic industry, to looking at the physical sights of the sub-marine communication cables, as well as looking at the banal processes of dealing with death.

Mae Gwobr Jane Phillips yn llwyddiannus ac yn datblygu; gan ymateb i'r gymuned artistig a ffurfio partneriaethau newydd. Rydym am ddatblygu a lledaenu'r wobr wrth gyflwyno dwy wobr newydd, ynghyd â rhaglen flynyddol o Breswyli, gan gynnwys partneriaeth ryngwladol, a fydd yn bodoli wrth ochr y brif wobr.

Derbyniwr Cyfnod Preswyl Graddedigwr Gwobr Jane Phillips 2015 yw Harry Gammer-Flitcroft, graddedigwr Ffotograffiaeth Coleg Celf Abertawe, UWTSD, ac fe fydd hwn yn arddangosfa o'r gwaith a gynhyrchir yn ystod ei gyfnod preswyl yn stiwdio Gwobr Jane Phillips, Stiwdios Stryd Fawr Elysium.

Mae gwaith Harry yn archwilio mecaneg systemau sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu i ffafrio'u canlyniad. Mae pynciau diweddar wedi amrywio o ddadansoddi'r diwydiant ffotograffig, i edrych ar gablau gyfathrebu tanforol, ynghyd ac edrych ar brosesau cyffredin delio â marwolaeth.



## Rhian Haf Glass Workshop

*11am - 2pm Wed 17 February*

*£6 • Age 7+*

Using various objects as a basis to experiment and discover possibilities of light and shadows participants will create drawings and abstract shapes. Elements will then be used to create a small glass piece. This workshop will be led in the medium of welsh.

## Glass Mobile Making

*11am - 2pm Thurs 18 February*

*£6 • Ages 7+*

Design and create your own coloured glass mobile and add decoration with beads, threads and drawing. Led by artist Deirdre Finnerty.

*"My son was spoken to directly as his own person and was allowed to create freely, through drawing and craft"*

*- Parent Feedback*

# February Half Term

## Chiaroscuro Sculptures

*11am - 2pm Fri 19 February*

*Free • Ages 7+*

Make light and shade catching sculptures with Lucy Donald. Use a number of materials to create forms that make patterned and textured shadows, which diffuse the light and enable the light to behave differently on a number of surfaces.



# Captured Moments Events & Workshops

## Lunchtime Talk 'Captured Moments'

*12pm - 1pm Fri 26 February*

*Free • All Welcome*

In conversation between exhibiting artist Rhian Hâf and Chris Bird Jones. This is a free event and all are welcome.

## Etching Glass Workshop with Rhian Hâf

*11am - 3.30pm Sat 27 February*

*£15• Ages 15+*

Working with artist Rhian Hâf participants will explore the architectural elements inside and outside of Mission Gallery as a basis to create abstract drawings. These will then be developed further into glass by translating elements of the drawings and applying the etching technique.

# Easter Holiday Workshops

## Futuristic Homes

*11am - 2pm Wed 30 March*

*Free • Ages 7+*

Come and make pipe-cleaner architectural sculptures and shadow drawings. Build futuristic high rise buildings and spaceship shaped libraries. Light your architectural forms and make drawings from the shapes that emerge. Led by Lucy Donald

## Wire Cities

*11am - 2pm Thurs 31 March*

*£6 • Ages 7+*

Work with artist Rhian Wyn Stone to create imaginative cities using wire, taking inspiration from your favourite places in Swansea City.

## Mixed Media Castles

*11am- 2pm Fri 1 April*

*£6 • Ages 7+*

April Fools Day Workshop led by artist Megan Leigh. drawing inspiration from welsh castles, create a Plaster bandage castle worthy of a King!

## Paper Tube City

*11am - 2pm Wed 6 April*

*Free • Ages 7+*

Using paper and crafts, become the builder of your own city. Led by artist Megan Leigh.

Materials provided, limited places, booking is essential. Please bring a packed lunch and inform us of any access requirements, allergies or medical conditions.

# Easter Holiday Workshops

## Doll's Dream Home

*11am - 2pm Thurs 7 April*

*£6 • Ages 7+*

Cardboard doll's house and furniture: make your own Doll's House and fill with hand made furniture. Bring the doll that is going to live in it and make the house of your dreams!

## Wire Houses

*11am - 2pm Fri 8 April*

*£6 • Ages 7+*

Work with artist Rhian Wyn Stone to create an ideal home using wire, taking inspiration from your favourite home, your own home and homes in the city.



To book a place or for more information give us a call on 01792 652016.

Places available for parents at the same price.

Please visit our activities page for a full list of workshops: www.missiongallery.co.uk



### Gweithdy Gwydr Rhian Hâf

*11yb - 2yp Mercher 17 Chwefror*
*£6 • Oedran 7+*

Gan ddefnyddio gwrthrychau amrywiol fel sylfaen i arbrofi a darganfod posibiliadau golau a chysgod bydd unigolion yn creu darluniau a siapiau abstract. Bydd elfennau yn cael eu defnyddio i greu darn gwydr bach. Arweinir y gweithdy drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Creu Darn Symudol Gwydr

*11yb - 2yp Iau 18 Chwefror £6*
*£6 • Oedran 7+*

Dylunio a creu darn gwydr symudol lliwgar ac ychwanegu addurn gyda botymau, edau ac arlunio. Arweinir gan yr artist Deirdre Finnerty.

> *"Siaradwyd â fy mab fel person yn ei hun ac roedd ganddo'r rhyddid i greu, trwy arlunio a chreffi"*
>
> *- Barn Rhiant*

## Hanner Tymor Chwefror

### Cerfluniau Chiaroscuro

*11yb - 2yp Gwener 19 Chwefror*
*Am Ddim • Oedran 7+*

Creu cerfluniau sydd yn dal golau a chysgodion gyda Lucy Donald. Byddwch yn defnyddio nifer o ddeunyddiau i greu ffurfiau sydd yn creu cysgodion patrymog a llawn gwead, sydd yn gwasgaru golau a galluogi golau i ymddwyn yn wahanol ar nifer o arwynebau.



## Digwyddiadau a Gweithdai Cipio Eiliadau

### Sgwrs Cinio 'Cipio Eiliadau'

*12yp - 1yp Gwener 26 Chwefror*
*Am Ddim • Croeso i Bawb*

Sgwrs rhwng yr artist Rhian Hâf a Chris Bird Jones. Digwyddiad rhad ac am ddim ac mae croeso i bawb.

### Gweithdy Ysgythru Gwydr (Gweithdy oedolion) gyda Rhian Hâf

*11yb - 3.30yp Sadwrn 27 Chwefror*
*£15• Oedran 15+*

Gan weithio gyda'r artist Rhian Hâf bydd unigolion yn archwilio elfennau pensaernïol o fewn a thu allan i Oriel Mission fel sylfaen i greu darluniau abstract. Bydd y rhain yn cael eu datblygu'n ymhellach i wydr trwy gyfieithu elfennau o'r darluniau a'u haddasu wrth ddefnyddio'r dechneg ysgythru.

## Gweithdai Gwyliau Pasg

### Cartrefi'r Dyfodol

*11yb - 2yp Mercher 30 Mawrth*
*Am Ddim • Oedran 7+*

Dewch i greu cerfluniau pensaernïol glanhawyr pibau a darluniau cysgod. Adeiladwch adeiladau uchel y dyfodol a llyfrgelloedd wedi eu siapio fel llongau gofod. Byddwch yn goleuo'r ffurfiau pensaernïol a chreu darluniau o'r siapiau a fydd yn ymddangos. Arweinir gan Lucy Donald.

### Dinasoedd Gwifren

*11yb - 2yp Iau 31 Mawrth*
*£6 • Oedran 7+*

Gweithio gyda'r artist Rhian Wyn Stone i greu dinasoedd dychmygol gan ddefnyddio gwifren, gan gymryd ysbrydoliaeth o'ch hoff lefydd yn Ninas Abertawe.

### Cestyll Aml-gyfrwng

*11yb - 2yp Gwener 1 Ebrill*
*£6 • Oedran 7+*

Gweithdy Ffwl Ebrill wedi ei arwain gan yr artist Megan Leigh. Gan gymryd ysbrydoliaeth o gestyll Cymreig, byddwch yn creu castell bandais plaster digon da i Frenin!

### Dinas Tiwbiau Papur

*11yb - 2yp Mercher 6 Ebrill*
*Am Ddim • Oedran 7+*

Gan ddefnyddio papur a chrefftau, dewch yn adeiladwr eich dinas. Arweinir gan Megan Leigh.

Darparir yr holl ddeunyddiau, llefydd yn brin, bwcio o flaen llaw yn hanfodol. Dewch â brechdanau a gadewch ni wybod os oes unrhyw ofyniadau mynediad, alergedd neu gyflwr meddygol.

## Gweithdai Gwyliau Pasg

### Cartref Breuddwyd Dol

*11yb - 2yp Iau 7 Ebrill*
*£6 • Oedran 7+*

Tŷ a dodrefn dol cardfwrdd: gwnewch Dŷ Dol eich hunain a'i llenwi gyda dodrefn wedi'u gwneud â llaw. Dewch a'r ddol sydd yn mynd i fod yn byw ynddo a chreu tŷ eich dychymyg!

### Tai Gwifren

*11yb - 2yp Gwener 8 Ebrill*
*£6 • Oedran 7+*

Gweithio gyda'r artist Rhian Wyn Stone i greu'r cartref perffaith gan ddefnyddio gwifren, gan gymryd ysbrydoliaeth o'ch hoff gartref, eich cartref chi neu gartrefi yn y ddinas.



I fwcio lle ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar 01792 65201.

**Llefydd ar gael i oedolion hefyd am yr un pris.**

**Ymwelwch â'n tudalen gweithgareddau am restr lawn o weithdai: missiongallery.co.uk**

# Craft at Mission Gallery

*Contemporary Ceramic, Glass, Textile, Jewellery & Design*



1.

Mission Gallery is at the cutting edge of applied art, craft and design. It is renowned for excellence; selecting contemporary craft and design objects for the established collector to the first time buyer. Presented within an art led environment; where the best of local, national and international makers and designers can be found.

The curated environment presents a changing display of contemporary ceramic, glass, textile, jewellery and design from both established and emerging makers and artists. It provides opportunities for artists/makers to engage with the visiting public and assists the development of the region's cultural sector whilst also providing an income stream and opportunity for artists to establish their creative career in Wales.

Mae Oriel Mission ar linell flaen celf gymhwysol, crefft a dylunio. Yn adnabyddedig am arbenigrwydd; gan ddethol gwrthrychau crefft a dylunio cyfoes i'r casglwr sefydledig a'r prynwr cyntaf. Wedi eu cyflwyno mewn amgylchedd celf, lle mae'r gorau o wneuthurwyr a dylunwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i'w darganfod.

Cyflwyna'r amgylchedd curadurol yma arddangosfa newidiol o gerameg, gwydr, tecstil, gemwaith a dylunio cyfoes o wneuthurwyr ag artistiaid sefydledig ac ymddangosedig. Darpara gyfleoedd i artistiaid/gwneuthurwyr gysylltu gyda'r cyhoedd ymwelededig a chefnogi datblygiad sector diwylliannol yr ardal wrth ddarparu llinell incwm a chyfle i'r artistiaid yma sefydlu eu gyrfaoedd creadigol yng Nghymru.

### Gift Vouchers & Collectorplan

Gift Vouchers can be purchased at the gallery. Collectorplan, the Arts Council of Wales' interest free credit scheme, is also available.

Talebau Anrheg i'w cael yn yr oriel. Mae'r Cynllun Casglu, gwasanaeth credyd di-log Cyngor Celfyddydau Cymru, hefyd ar gael.



2.



3.



4.



5.

1. Big Tomato Company
2. Sarah Straussberg
3. Helen Chatterton
4. Melanie Tomlinson
5. Williams Handmade



Paperwhale



Harriett Chapman



Georgina Fowler



Big Tomato Company




Buddug Humphreys



Naomi James



Sarah Straussberg



Carys Davies

# Forthcoming • Dyfodol

*Exhibitions • Maker in Focus • the [...] space*



Philip Eglin • Slipping the Trail
*Touring Exhibition from Ceramics Gallery, Aberystwyth*
*16 April – 5 June 2016*



Helen Dennis • JPA International Residency
*In partnership with Residency Unlimited, New York*
*based at Elysium Studios • 29 Jan - 29 Feb 2016*



Rebecca Rendell
*Maker in Focus • Gwneuthurwr mewn Ffocws*
*5 April - 8 May 2016*



Matthew Bush
*Maker in Focus • Gwneuthurwr mewn Ffocws*
*10 May - 19 June 2016*



Jonathan Arndell
*the [...] space • y lle [...]*
*5 April - 8 May 2016*



Penny Hallas
*the [...] space • y lle [...]*
*10 May - 19 June 2016*

# Mission Gallery

*About & Visiting • Amdanom & Ymweld*



Mission Gallery is one of Wales' best adapted spaces for the contemporary arts. Mission Gallery has developed a reputation for dynamic and distinctive programming, to present excellence across the visual arts, applied arts and craft, from across Wales and beyond.

We are located on Swansea Marina near the City Centre, a 15 minute walk from Swansea Train Station and a 10 minute walk from Swansea's central bus station. Pay & display car parks are situated close by, with limited free 3 hour parking outside the gallery. Access is by one-step entry from pavement level through to our main entrance. There is level access throughout the gallery spaces, with education based on the first floor. A wheelchair ramp is also available on request.

Un o safleoedd gorau Cymru am gelf gyfoes yw Oriel Mission. Mae'r Oriel wedi datblygu enw da am rhaglen deinamig a gwahanredol, i gyflwyno arbennigrwydd ar draws y byd celf gweledol, cymhwysol a chrefft, o Gymru ac ymhellach.

Rydym ni wedi ein lleoli yn Marina Abertawe yn agos i ganol y ddinas, taith 15 munud ar droed o orsaf drennau Stryd Fawr Abertawe a 10 munud o orsaf fysiau Abertawe. Mae yna feysydd parcio talu ac arddangos yn agos, gyda peth parcio 3 awr am ddim tu allan i'r oriel. Mae yna un gris o lefel y palmant trwy ein prif mynediad. Mae yna lawr lefel trwy gydol y gwagleoedd arddangos, gyda'r lle addysg ar y llawr cyntaf. Mae yna ramp cadair olwyn i gael ar ymofyn.

*Front: Rhian Hâf by Dewi Tannatt Lloyd*
*Back: Calle Maggioni • Photo by Rhian Hâf*

*Design by Matt Otten • www.matthewotten.co.uk*

Mission Gallery
Gloucester Place
Swansea • SA1 1TY

01792 652016 • info@missiongallery.co.uk
www.missiongallery.co.uk

Open Good Friday, Easter Sunday & Easter Monday
Admission Free • Mynediad am ddim

Open 11am - 5pm Tuesday - Sunday
Closed Mondays • Open Bank Holidays

Ar agor 11yb - 5yp dydd Mawrth - dydd Sul
Ar gau bob dydd Llun • Ar agor Gwyliau Banc

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Swansea College of Art
Founded 1853

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

ARTAWE
Swansea Arts Resource

Jane Phillips Award

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

RU
Residency Unlimited

elysiumgallery

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum

*"It is the light that makes the invisible dimension become visible."*

quote from the Illusion of Light exhibition,
Palazzo Grassi, Venice, 2014.

